

Mor Agos ac Eto Mor Bell: Cyrraedd Cynulleidfa Barod

Cefndir

Ym Mawrth 2022 darparodd Llywodraeth Cymru arian i Gyngor Llyfrau Cymru i'w ddsbarthu ar gyfer cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru i gyrraedd cynulleidfaedd newydd.

Mae llawer o'r arian hwnnw wedi mynd at greu cynnwys a chyrraedd cynulleidfaedd newydd iawn sy'n draddodiadol wedi eu tangynrychioli'n ddifrifol mewn llyfrau o, ac am, Gymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, teimlwyd bod y farchnad Gymraeg ar gyfer oedolion yn parhau yn fregus ac y gellid gweithio i gyrraedd darllenwyr newydd o fewn y demograffig hwnnw yn ogystal. Felly neilltuwyd £30,000 i gyrraedd at gynulleidfaedd Cymraeg sy ddim ar hyn o bryd yn darllen Cymraeg.

Y syniad yn fras

Gall llyfr i oedolion yn Gymraeg werthu tua 1000 o gopiâu. Mae dros 6000 yn darllen *Y Wawr* (Cylchgrawn Merched y Wawr) a tua 40,000 yn darllen papurau bro ledled Cymru, sy'n awgrymu potensial gwerthiant nad ydyn ni'n agos at ei gyrraedd. Maen nhw mor agos, ac eto mor bell.

Tra bod cyhoeddiad papur yn ymddangos yn draddodiadol iawn mae'r siopau a'r cwsmeriaid yn mynnu bod 'catalogau' yr haf a'r Nadolig yn boblogaidd iawn. O'r herwydd, y syniad yw cynhyrchu cyhoeddiad papur gyda naws cylchgrawn (8 ochr A4) wedi ei ddylunio a'i olygu'n fywiog a'i anelu at y farchnad hon, yn tynnu sylw at lyfrau poblogaidd mewn iaith hygyrch.

Tra mai dyma fydd prif allbwn y prosiect, dylid ystyried ar yr un pryd a fyddai modd defnyddio'r cynnyrch yma at bwrpasau eraill – drwy greu cynnwys digidol, fideo, llais ayb ar yr un pryd a chomisiynu deunydd ar gyfer y cyhoeddiad papur.

Y Gynulleidfa

Nid darllenwyr llyfrau brwd ydy cynulleidfa'r cyhoeddiad hwn.

Bwriad y cyhoeddiad yw hyrwyddo a gwerthu llyfrau oedolion nid llyfrau plant.

Dylid ystyried bod y gynulleidfa ar gyfer y cyhoeddiad hwn yn:

- Yn oedolion
- Gweddol hyderus eu Cymraeg ac yn darllen papur bro
- Yn ddynion yn benodol, yn ogystal â merched
- Yn ddysgwyr hyderus
- Efallai yn darllen llyfrau Saesneg poblogaidd yn weddol reolaidd
- Efallai yn darllen ambell lyfr Cymraeg o dro i dro os yw o ddiddordeb penodol iddyn nhw
- Ddim yn gyfarwydd â'r tirwedd llenyddol Cymraeg ac felly ni ddylid cymryd yn ganiataol eu bod nhw'n gyfarwydd â chyfeiriadau ffwrdd a hi at 'Gwanas' neu 'Llyfr Glas Nebo' ayb

Cywair

Dylai teitl ac iaith y cyhoeddiad, natur y dewis o lyfrau a'r dewis o gyfranwyr dargedu'r gynulleidfa uchod bob amser.

Amrywiaeth

Dylid cofio ymrwymiad y Cyngor i gynrychiolaeth deg a dylai'r cyhoeddiad o ran cynnwys a diwyg adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Cynnwys a Fformat

- Dau rifyn
- 8 ochr x A4
- Iaith – safonol ond hygyrch
- Cynnwys – llyfrau poblogaidd, gan gofio ffuglen a ffeithiol, dynion a merched – **sydd mewn print.**
- Daearyddiaeth – un cyhoeddiad i Gymru gyfan fydd hwn felly mae angen bod yn ymwybodol o amrywiaeth daearyddol
- Sylw i siopau ac at siopa ar-lein.
- Bod yn ymwybodol o gynnwys gwahanol gyhoeddwr.

Cynnwys

Fyddai'r cynnwys ddim yn ddibynnol ar werthu llyfrau newydd nac yn dymhorol. Dylid bod mor glyfar â phosibl yn dylunio cynnwys nad yw'n dyddio ac y bydd modd ei ddefnyddio mewn cyd-destunau eraill.

Fformatiau

Paratoi cyhoeddiad papur yw prif amcan y prosiect hwn. Ond dylid bob amser fod yn barod i feddwl am ffyrdd o ailwrpasu cynnwys, allai gynnig cynnwys i gyhoeddiadau eraill neu adnoddau digidol: rhestrau llyfrau i'w rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, adolygiad fideo yn ogystal ac ysgrifenedig, darlleniad o bennod ayb

Syniadau cychwynnol am gynnwys

Gall y ddau rifyn fod ar thema wahanol neu wedi eu hanelu at gynulleidfa ychydig yn wahanol, ond dyma syniadau bras am y math o ddeunydd y dychmygydd ei gynnwys:

- Pennod neu ddarn o bennod i roi blas i'r darllenydd ar lyfr, cyfres o lyfrau neu waith awdur
- Rhestrau darllen gan unigolion adnabyddus neu ar gyfer carfan benodol o ddarllenwyr
- Colofnau: 'O'n i ddim wedi darllen Cymraeg ers blynnyddoedd nes i mi ddarllen ...', 'Fy hoff lyfrau chwaraeon...' 'Cylchgronau: nes i ddarllen hwn yn ... Llafar Gwald'
- Sai'n Deall / Dwi ddim yn dalld – rhywbeth doniol yn ceisio chwalu mythau am fethu deall llyfrau Cymraeg, Gog/Hwntw
- Adnabod awduron cynhyrchiol ... lecio hwn dyma ragor
- Adnabod genres – lecio hwn... dach chi'n siwro lecio hwn ...
- Adolygiadau byr ...
- Lle dwi'n mynd ... does gen i ddim siop lyfrau leol!?
- Cofio bod dewis o lyfrau llafar ac e-lyfrau ar gael yn ogystal, allai fod yn fwy hygyrch i ddarllenwyr llai hyderus ...

Bydd y golygydd yn:

- Gosod gweledigaeth olygyddol

- Ysgrifennu cynnwys
- Comisiynu cynnwys
- Golygu cynnwys
- Bod â barn adeiladol ar frand a dyluniad
- Cyfathrebu gyda chyhoeddwyr a llyfrwerthwyr

Sgiliau'r golygydd

- Adnabyddiaeth o'r farchnad lyfrau boblogaidd yn Gymraeg yn gyfredol a thros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ...
- Profiad golygyddol a phrofiad o'r broses gyhoeddi gan gynnwys gweithio gyda dylunwyr
- Ymwybyddiaeth o'r cyhoeddwyr Cymraeg
- Ymwybyddiaeth o gymeriadau 'dylanwadol' fyddai'n addas i'w comisiynu i argymell (neu i roi eu henw i argymhellion!) am lyfrau.

Amserlen (i'w chadarnhau)

Cerrig milltir:

Barod 1 Hydref 2022 ac wedi ei argraffu erbyn 10 Hydref 2022.

Bydd angen yr ail yn barod erbyn 1 Chwefror ac wedi ei argraffu erbyn 20 Chwefror.

Cefnogaeth

Y golygydd fydd yn gyrru'r gwaith hwn o ddydd i ddydd ond bydd staff y Cyngor Llyfrau ar gael i gynnig cyngor ac arweiniad. Gellid tynnu grŵp ymgynghorol bychan at ei gilydd fydd yn cynnwys aelodau'r o'r timau:

- marchnata a gwerthu
- grantiau
- golygyddol
- dylunio

Cyflogaeth

Rydym yn rhagweld y bydd yn cymryd hyd at 60 diwrnod i gwblhau'r gwaith ar y ddau rifyn. Rydym yn edrych am gymorth golygydd llawrydd i weithio hyd at 60 diwrnod o Gorffennaf 2022 hyd at Chwefror 2023 fan bellaf. Gallwn gynnig £100 y dydd am y gwaith. Bydd y golygydd yn adrodd o ddydd i ddydd i Arwel Jones, Pennaeth Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru.

Cais

Yn seiliedig ar yr uchod allech chi gynnig eich syniadau ar gyfer y gwaith (dim mwy nag un ochr A4) ynghyd a llythyr a/neu CV yn amlinellu'ch profiadau mwyaf perthnasol erbyn hanner dydd, 30 Mehefin, drwy ei yrru at arwel.jones@llyfrau.cymru